# Caban Y Faenol CYF

## Polisi Delweddau Digidol (Lluniau a Fideos)

Blaenoriaeth Caban Y Faenol CYF yw diogelu ac amddiffyn plant yn eu gofal, gan gynnwys osgoi unrhyw gamddefnydd o'u delweddau. Serch hynny, ceisiwn gadw cydbwysedd rhwng pwysigrwydd amddiffyn y plant yn ein gofal rhag unrhyw gamddefnydd o'u delweddau a'r angen i dynnu sylw a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gweithgareddau a'r gwaith a wnawn.

Mae datblygiadau ym maes technolegau delweddu digidol yn cynnig cyfleoedd newydd i gefnogi addysg a datblygiad cynnar y plant, yn ogystal â chyfleoedd i hybu gwaith y lleoliad.

Bydd y Rheolwr yn egluro'n glir i'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ym mha ffordd y bydd y delweddau'n cael eu defnyddio a bydd yn goruchwylio'n ofalus unrhyw ddelweddau a grëwyd gan unrhyw unigolyn o'r tu allan i'r lleoliad e.e. y ffotograffydd o'r papur bro.

**Hawliau'r Plentyn**

Yng Nghaban y Faenol, mae'r Polisi Delweddau Digidol hwn yn rhan hanfodol o barchu Hawliau'r Plentyn fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol:

- Erthygl 16: Mae gan blant hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu hamddiffyn rhag ymosodiadau yn erbyn eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

**Cod Ymarfer**

Bydd Caban y Faenol yn:

- sicrhau bod rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid yn rhoi caniatâd ysgrifenedig cyn tynnu llun o'u plentyn/plant at ddefnydd Caban e.e. i'w defnyddio yn arolygiad AGC, arddangosfeydd yn y lleoliad, gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen, rhannu arfer dda.
- sicrhau bod caniatâd ysgrifenedig yn cael ei dderbyn ar ddechrau amser y plentyn yn y lleoliad.
- adnewyddu'r caniatâd ysgrifenedig yn rheolaidd e.e. ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.
- sicrhau bod caniatâd ysgrifenedig penodol gan y rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid cyn defnyddio delweddau o'r plentyn/plant ar wefannau neu ar unrhyw un o'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol
- sicrhau nad oes unrhyw blant yn cael eu henwi mewn unrhyw ddelwedd a ddefnyddir ar wefan y lleoliad neu ei dudalennau cyfryngau cymdeithasol.

- sicrhau bod caniatâd ysgrifenedig penodedig ar wahân ar gyfer unrhyw achlysur ychwanegol lle mae delweddau o'r plant i'w defnyddio'n allanol e.e. yn y papur bro, ar sioe deledu.
- galluogi staff a gwirfoddolwyr i greu a chasglu delweddau digidol (lluniau a/neu fideos) i gefnogi amcanion addysgol y lleoliad e.e. trwy ddarparu'r lleoliad gyda chamera digidol neu lechen.
- sicrhau mai dim ond offer y lleoliad a ddefnyddir i gynhyrchu a chasglu delweddau digidol. Ni ddylai staff a gwirfoddolwyr ddefnyddio eu hoffer personol ar gyfer y defnydd hwn.
- cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data (1998) wrth greu neu storio delweddau.
- cadwch y delweddau am yr amser angenrheidiol yn unig
- sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o gynnwys y polisi hwn fel rhan o'u rhaglen sefydlu.
- rhannu egwyddorion y polisi gyda rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.

Pan fydd unrhyw achos o dynnu lluniau plant yn codi, bydd y person sy'n tynnu'r lluniau yn adnabod yr amodau canlynol:

- Ni ddylid enwi plant yn y lluniau.
- Ni chaniateir tynnu lluniau/fideos o blant mewn dillad anaddas.
- Dim ond at y diben y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer y dylid defnyddio delweddau.
- Ni ddylai staff na gwirfoddolwyr o dan unrhyw amgylchiadau greu unrhyw ddelweddau o'r plentyn neu'r plant ar eu hoffer personol (e.e. camera, ffôn, llechen).
- Offer y lleoliad yn unig ddylai gael ei ddefnyddio i greu delweddau.
- Rheolwr y lleoliad yw'r unig unigolyn a all roi caniatâd i ddyblygu'r lluniau ar gyfer gweithgareddau'r lleoliad.

Nid yw Caban Y Faenol yn annog rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid nac aelodau'r cyhoedd i greu delweddau o'r plant tra yng ngofal y lleoliad (e.e. ar daith i'r parc). Fodd bynnag, yn dilyn arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, nid yw'r Ddeddf Diogelu Data (1998) yn gwahardd rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid rhag creu delweddau o'u plentyn/plant eu hunain yng ngweithgareddau Caban y Faenol.

I barchu hawl yr unigolyn i breifatrwydd, ac i sicrhau diogelwch y plant:

- Rhaid pwysleisio wrth rieni mai at eu defnydd personol nhw'n unig y mae tynnu lluniau neu wneud fideos yn ystod gweithgareddau'r lleoliad (e.e. cyngerdd Nadolig, mabolgampau).

- Lle nad y rhieni/gofalwyr yn unig sy'n berchen ar y plentyn/plant yn y ddelwedd, rhaid i rieni gytuno i beidio â rhannu'r delweddau'n gyhoeddus ar unrhyw wefan (e.e. blog personol) neu unrhyw dudalennau cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Instagram).
- Ni ddylai rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid wneud sylw ar unrhyw ddelweddau a rennir gan rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid eraill

**Polisïau Cysylltiedig**

Polisi E-Ddiogelwch

Polisi Cyfrinachedd a Diogelu Data

Polisi Canmoliaeth a Chwynion

Polisi Amddiffyn Plant

**Cysylltiadau a Gwybodaeth Ddefnyddiol**

Mae'r gwefannau a'r cyhoeddiadau canlynol yn darparu gwybodaeth bellach ddefnyddiol:

Information Commissioners Office 'Taking Photographs in Schools':
https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1136/taking_photos.pdf

The NUT's 'Photographic Policies' Health and Safety briefing document:
https://www.teachers.org.uk/help-and-advice/health-and-safety/p/photographic-policies

The Home Office 'Indecent images of children: guidelines for young people'
https://www.gov.uk/government/publications/indecent-images-of-children-guidance-for-young-people/indecent-images-of-children-guidance-for-young-people

Crown Prosecution Service Guidelines 'Indecent Images of Children (IIOC)'
http://www.cps.gov.uk/legal/h_to_k/indecent_images_of_children/